

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnodï

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

ANEIRIN, bardd o fri yn hanner olaf y 6ed ganrif.

Enw: Aneirin
Rhiant: Dwywei ferch Leennawg
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd o fri yn hanner olaf y 6ed ganrif.
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Ifor Williams

Yn ôl 'Historia Brittonum' **Nennius** (tua 796) bu pump o feirdd yn enwog mewn barddoniaeth Gymraeg, sef Talhaearn Tad Awen, Neirin, **Taliesin**, Blwchfardd, Cian, adeg y brwydro yn erbyn Ida, brenin Northumbria (547-559), a'i feibion hefyd, mae'n debyg. Felly 'Neirin' yw ffurf hynaf yr enw, ond erbyn 1200 tyfasai 'a' o flaen yr 'n' ar ei ddechrau, a'i droi'n 'Aneirin,' cf. y modd yr aeth 'nadredd' yn 'anadredd.' Erbyn 1632 cawn **Dr. Davies** yn y *Geiriadur Dyblyg* yn arfer 'Aneirin' amdano, ffurf a ffynnodd hyd ein dyddiau ni, er mor ddi-sail ydyw.

Nid oes chwaith rony'n o sail i'r dyb a goleddwyd gan rai fod Aneirin o'i gam-sgrifennu'n Aneirin yn cyfateb o ran ystyr i enw'r **Gildas** a ffrewylodd frenhinoedd y Brython ac a ddilornodd feirdd **Maelgwn**; fwy na thros gredu mai'r un un oedd y bardd a'r mynach. Gwahanol hollol yw'r ddau o ran eu haniaen; nid yn yr un hanner o'r ganrif y blodeuent, a bu eu marw mor wahanol â'u byw. Anghredadwy hollol yw'r syniad y buasai'r un o'r ddau yn dewis llysenw Saesneg wrth gyfansoddi yn Lladin, petasai modd profi mai 'gild' - 'gold' yw bôn yr enw **Gildas**.

Yn 'Llyfr Aneirin,' llawysgrif a ysgrifennwyd tua 1250, ceir cân hir o gant a thri o benillion a elwir 'odlau' i osgordd Mynyddawg Mwynfawr, arglwydd Dineiddyn, neu Ysgor Eiddyn, sef Edinburgh, a elwir fyth yn Dunedin gan wyr yr Alban. Gelwir y cwbl 'Y Gododdin', gan mai'r llwyth hwnnw o'r Brython oedd yn trigo yn nhueddau Edinburgh, ar lan y Forth, sef Manaw Gododdin. Hwy yw 'Votadini' Ptolemi yn yr ail ganrif. Testun y gân yw cyrch gosgordd neu deulu Mynyddawg o Ddineiddyn i Gatraeth (Catterick neu Richmond yn swydd Efrog) i geisio adennill y lle o afael y Saeson. Trichant oedd nifer yr osgordd; lladdwyd hwy oll ond un. Nid yw Aneirin yn disgrifio'r frwydr; yn hytrach disgrifio unigolion, arwr ar ôl arwr, pob un â'i nodweddion ei hun, ond pob un yn ddewr a ffyddlon i'w arglwydd. Talasant eu medd.

Cymysgwyd â'r gerdd hon odlau eraill, rai yn llawer diweddarach, ac yn un o'r rhain (ll. 640-55) ceir bardd yn defnyddio'r 'Gododdin' mewn cerdd ymryson; gofyn am wobr am ei hadrodd, a 'boed i warchan mab Dwywei ennill.' Yna â ymlaen. 'Er pan laddwyd ac er pan aeth daear ar Aneirin, mae cân bellach wedi ysgar â'r Gododdin.' Os yw 'gwarchan mab Dwywei,' neu gân mab Dwywei, yn ddisgrifiad o'r Gododdin, fel y gellir tybied, yna wele dystiolaeth gynnar i ach Aneirin. Mab Dwywei ydoedd. Gwyddys am ferch o'r enw yn yr hen achau; mam **Deinyoel Sant** oedd Dwywei ferch Leennawg. Yn ôl **Nennius** yr oedd ei brawd Gwallawg yn cydryfela ag Urien yn erbyn Hussa fab Ida (585-592). Yn ôl yr 'Annales' bu **Deinyoel Sant** farw yn 584. Tybed mai brawd ieuangach iddo ef oedd Aneirin, bardd y Gododdin? Gall hynny fod, ond ynfyd fuasai dal nad oedd Dwywei arall yn bod yn y cyfnod hwnnw; gweler **Peniarth MS 75** (51), 'Dwywei verch Degid Voel.' O'r gerdd ei hun gwelir fod Aneirin yn gyfaill a châr i rai o osgordd Mynyddawg. Chwanegiad diweddarach yw'r cyfeiriad ato fel un o bedwar a ddihangodd yn fyw o'r cyrch i Gatraeth, ond gellir derbyn yr awdl a ddywed ei achub o garchar yn nhir y gelyn trwy wrhydri fab Llywarch.

Yn 'Llyfr Aneirin' cadwyd tri gwarchan hen a briodolir iddo, heblaw'r Gododdin. Mewn llawysgrifau diweddarach ceir 'Englynion y Misoedd' a honnir ddarfod eu canu ganddo. Nid yw eu hieithwedd o blaid hynny.

Yn y Trioedd rhestrir lladd Aneirin gan ' Heiddyn' ('Heiden,' 'Eidyn') ap Enygan (Euengat) yn un o'r Tair Anfad Gyflafan, ac yn un o'r Tair Anfad Fwyallawd. Gelwir ef Aneirin Gwawdrydd, Mechdeyrn Beirdd, h.y. eu pen brenin, cf. **Taliesin Ben Beirdd**. Addurn oes arall yw hynny.

Awdur

Syr Ifor Williams, (1881 - 1965)

Ffynonellau

'Canu Aneirin,' Y *Cymmrodor*, vii, 128

Bulletin of the Board of Celtic Studies, xii, 14

The Text of the Mabinogion â€¦ from the Red Book of Hergest (Oxford 1887), 303-4

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britaipiv*, 369, 371

Golygwyd y farddoniaeth gan Ifor Williams yn *Canu Aneirin* (Caerdydd 1938)

Darllen Pellach

Archifau LIGC: **Llyfr Aneirin**

Erthygl Wicipedia: **Aneirin**

Sain a Ffilm

Gwyn Thomas: **Y Gododdin**

John Koch: **Y Gododdin**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: **14848295**

Wikidata: **Q514898**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Williams, I., (1953). ANEIRIN, bardd o fri yn hanner olaf y 6ed ganrif.. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ANEI-RIN-0550>

Lyfrgell

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu



LLYFRGELL
THE NATION

